

Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Adroddiad Blynyddol
2017–2018



Yr hyn a wnawn

Ni yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio. Rydym yn cadw cofrestr o'r 690,000 o nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio sy'n gallu gweithio yn y DU.

Mae gofal gwell a mwy diogel ar gyfer pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan gynorthwyo'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Rydym yn sicrhau bod nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i ofalu am bobl mewn ffordd ddiogel, gydag uniondeb, arbenigedd, parch a thosturi, o'r eiliad y byddant yn cychwyn yn eu swydd gyntaf.

Nid yw dysgu yn stopio ar y diwrnod pan fydd nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn cymhwyso. Er mwyn hyrwyddo diogelwch ac ymddiriedaeth y cyhoedd, mae gofyn i weithwyr proffesiynol ddangos trwy gydol eu gyrfa eu bod wedi ymrwymo i ddysgu a datblygu er mwyn diweddarau eu sgiliau a gwella fel ymarferwyr.

Rydym yn dymuno annog gweithredu agored a dysgu ymhlith proffesiynau gofal iechyd er mwyn gwella gofal a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Ar yr achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le a bydd pobl mewn perygl, gallwn gamu i mewn er mwyn ymchwilio a gweithredu, gan gynnig llais i gleifion a theuluoedd wrth i ni wneud hynny.

Tudalen y cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad	6
Rhan un: Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth	7
Rhan dau: Ymateb i bryderon	14
Atodiad un: Crynodeb o ddata SAC tan 31 Awst 2018	15
Atodiad dau: SACau cymeradwy a chanlyniadau monitro	16
Atodiad tri: canlyniadau cymeradwyo rhaglenni	17
Atodiad pedwar: Amodau cymeradwyo	18
Atodiad pump: canlyniadau monitro	20

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2017-2018, sy'n sôn am sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth. Bob blwyddyn, byddwn yn myfyrio am ein gweithgarwch sicrhau ansawdd (SA) er mwyn ein galluogi i barhau i ddatblygu ein prosesau, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfnod o newid sylweddol ym maes addysg broffesiynol a gofal iechyd, ac yn arbennig, y cynnydd cadarn o ran y llwybrau addysg hyblyg sydd ar gael i nyrsys a bydwragedd sy'n dymuno ymuno â'n cofrestr, gan gynnwys datblygiad parhaus prentisiaethau yn Lloegr.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried ein gweithgarwch SA yn ystod 2017-2018 ac mae'n bwysig iawn nodi y bydd ein gweithgarwch SA yn y dyfodol yn wahanol. Cyhoeddom ein safonau addysg newydd yn gynharach eleni a bydd ein model SA newydd yn adlewyrchu ein dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn perthynas â safonau.

Mae'n safonau addysg newydd yn nodi'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan weithwyr proffesiynol y dyfodol, fel y gallant ddarparu gofal diogel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n uchelgeisiol. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, bu'n rhaid i ni drawsnewid y dull gweithredu ar gyfer addysg a hyfforddiant proffesiynol hefyd, gan gynnwys dysgu sy'n seiliedig ar arfer. Mae'n safonau newydd ar gyfer darparwyr addysg nyrsio a bydwreigiaeth yn adlewyrchu hyn. Mawr obeithiwn y byddwch yn cytuno bod y newidiadau i'n safonau addysg yn rhai cadarnhaol.

Mae gan y safonau newydd oblygiadau ar gyfer y ffordd yr ydym yn sicrhau ansawdd sefydliadau a rhaglenni addysg hefyd, felly rydym wedi cyhoeddi ein fframwaith SA newydd yn ddiweddar. Mae'r fframwaith newydd hwn yn canolbwyntio ar ein dull gweithredu wrth gymeradwyo rhaglenni, yn ogystal â datblygu ein dull gweithredu a gaiff ei ysgogi gan ddata tuag at SA, er mwyn sicrhau ein bod yn gymesur o ran ein gweithgarwch, gan fod yn gadarn o hyd.

Yn ogystal, daethom yn rheolydd y proffesiwn cymdeithion nyrsio yn Lloegr yn ddiweddar, ac edrychwn ymlaen at y cymdeithion nyrsio cyntaf yn ymuno â'n cofrestr ym mis Ionawr 2019, law yn llaw â sicrhau ansawdd rhaglenni addysg cymdeithion nyrsio.

Athro Geraldine Walters, CBE

Cyfarwyddwr Addysg a Safonau

Crynodeb gweithredol

Mae'n fframwaith sicrhau ansawdd (SA) yn un o'r ffyrdd a ddefnyddiwn er mwyn diogelu'r cyhoedd. Bob blwyddyn, byddwn yn myfyrio am ac yn adrodd am ganlyniadau ein gweithgarwch SA er mwyn sicrhau ein bod yn siŵr bod myfyrwyr yn cael y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad dysgu perthnasol er mwyn gwneud gwaith diogel ar yr adeg pan fyddant yn ymuno â'r gofrestr, ac y gallant ddatblygu hyn trwy gydol eu gyrfa. Yn ogystal, rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella ein dull gweithredu o ran SA trwy wella ein prosesau.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Medi 2018, roedd nifer y sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) wedi cynyddu o 80 i 83. Ceir 917 o raglenni cymeradwy. Mae hwn yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r nifer y llynedd.

Dewisom 14 SAC at ddibenion monitro eleni, gan ganolbwyntio ar raglenni bydwreigiaeth cyn-gofrestru, rhaglenni dychwelyd i arfer (bydwreigiaeth) a rhaglenni nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol. Dewiswyd y rhaglenni hyn fel rhai sy'n canolbwyntio ar fydwreigiaeth gan bod rhaglenni nyrsio yn cael eu cymeradwyo o'r newydd dan y safonau newydd o 2018.

Yn ystod blwyddyn adrodd 2017/18, defnyddiom ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg yn unig er mwyn nodi sefydliadau i'w monitro. Roedd hyn wedi ein galluogi i awgrymu mewn ffordd fanylach pa sefydliadau i'w monitro, nad ydynt yn cyd-fynd â'n safonau efallai. Felly, byddai modd gwneud ymyriadau mewn ffordd briodol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu ac er mwyn sicrhau y bodlonir ein safonau.

Rydym wedi ymrwmo i ddefnyddio'r dadansoddiad o'r perfformiad yn ystod cylch monitro eleni i leihau risgiau allweddol er mwyn bod SACau a phartneriaid yn cydymffurfio â'n safonau a sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu. Pan nodir materion, byddwn yn gofyn am sicrwydd bod y rhain yn cael eu rheoli'n brydlon ac mewn ffordd effeithiol gan sefydliadau a'u partneriaid. Byddwn yn cytuno ar gynlluniau gweithredu gyda'r sefydliadau a gaiff eu monitro, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu. Yn ogystal, rydym yn adolygu ein dull gweithredu tuag at hunanasesu ac adrodd eithriadol fel rhan o'n dull gweithredu newydd ar gyfer gwaith monitro parhaus.

Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth wneud y defnydd gorau ag y bo modd o'n gwybodaeth trwy hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chydweithio'n fewnol gyda'n Huned Gwybodaeth Rheoliadol a'n Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwr, ac yn allanol gyda rheolyddion eraill a sefydliadau allweddol.

Cyflwyniad

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn) yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer SA addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio. Mae'n safonau yn cydymffurfio â'n deddfwriaeth ac yn darparu'r gofynion angenrheidiol ar gyfer addysg a hyfforddiant nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, a'r medrusrwydd y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni er mwyn ymuno â'n cofrestr.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn archwilio'r gweithgarwch SA a gynhaliom a'r prif themâu a risgiau sydd wedi deillio o'n gwaith SA gyda sefydliadau addysg cymeradwy a'u partneriaid lleoliadau arfer yn ystod blwyddyn adrodd academiaidd 2017–18 (rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018) ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth.

Goruchwyllo ein gwaith

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn goruchwyllo ein sefydliad a bydd yn archwilio nifer o'n meysydd gwaith bob blwyddyn. Roedd SA addysg wedi cael ei gynnwys yn Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2016/17 PSA (Mehefin 2018), a llwyddom i fodloni pedair safon y maes addysg a hyfforddiant perthnasol. Yn ogystal, cadarnhaodd adroddiad 2015/16 PSA y llwyddwyd i fodloni'r holl safonau rheoleiddio da ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Rhan un:

Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Mae'n rôl ym maes addysg yn rhan bwysig iawn o'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein hamcan cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd. Yn ystod blwyddyn adrodd academaidd 2017-18, roedd ein gweithgarwch SA addysg yn cynnwys pum prif weithgarwch.

- **Cymeradwyo sefydliadau addysg.**
- **Cymeradwyo rhaglenni, gan gynnwys cymeradwyo cychwynnol a chymeradwyo addasiadau i raglenni.**
- **Gweithgarwch adrodd hunanasesu blynyddol.**
- **Monitro SACau dethol.**
- **Ymateb i bryderon trwy gyfrwng adrodd eithriadol ac adolygu eithriadol.**

Cymeradwyo sefydliadau addysg

Rhaid i sefydliad addysg uwch sy'n dymuno rhedeg rhaglen wedi'i chymeradwyo gan CNB sicrhau statws SAC cyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y rhaglen honno.

Ar hyn o bryd, ceir 83 SAC ar draws y DU. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018, llwyddodd tri sefydliad addysg uwch newydd i sicrhau statws SAC: Prifysgol Caerlŷr, Prifysgol Caerwysg a Phrifysgol Solent Southampton.

Mae tri sefydliad addysg uwch arall wedi gwneud cais i fod yn SAC a bydd y penderfyniadau ynghylch eu cais yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.

Mae Atodiad un yn cynnwys crynodeb o'r data ynghylch SACau a rhaglenni cymeradwy.

Mae Atodiad dau yn cynnwys rhestr o'r holl SACau, gan nodi darparwyr newydd a'r SACau a gafodd eu monitro yn ystod y flwyddyn hon.

Cymeradwyo rhaglenni addysg

Roedd cymeradwyo rhaglenni yn cynnwys cymeradwyo cychwynnol, ail-gymeradwyo a chymeradwyo addasiadau i raglenni. Roedd y gymeradwyaeth ar gyfer y darpar raglen am gyfnod o chwe blynedd.

Yn ystod blwyddyn 2017/18, roeddem wedi cymeradwyo neu ail-gymeradwyo 55 rhaglen, gan ddwyn cyfanswm ein rhaglenni cymeradwy i 917.

Mae Atodiad tri yn cynnwys crynodeb o'r canlyniadau cymeradwyo rhaglenni ar gyfer 2017/2018.

Cymeradwyaeth newydd

Cymeradwyom 12 rhaglen newydd, gan gynnwys wyth rhaglen nyrsio cyn-gofrestru, dwy raglen bydwreigiaeth cyn-gofrestru a dwy raglen bresgripsiynu.

Ail-gymeradwyo

Yn ogystal, ail-gymeradwyom 43 rhaglen. Roedd gofyn i 39 rhaglen fodloni amodau cyn iddynt gael eu hail-gymeradwyo fel rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys 21 o raglenni nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol (SCPHN), naw cymhwyster ymarferwr arbenigol (SPQ), pum rhaglen presgripsiynu, tair rhaglen cyn-gofrestru ac un rhaglen dychwelyd i arfer (nyrsio).

Roedd dwy raglen SCPHN yn destun argymhellion yn unig. Cymeradwywyd dwy raglen bresgripsiynu heb amodau nac argymhellion.

Amodau

Pan fydd ymwelwyr yn nodi nas bodlonir ein safonau, gallant bennu amodau. Rhaid i ni deimlo'n siŵr bod yr amodau wedi cael eu bodloni gan y sefydliad cyn i ni gymeradwyo'r rhaglen. Mae amodau'n ymwneud â phum risg allweddol: adnoddau, derbyn a dilyniant, dysgu arfer, addasrwydd i wneud gwaith a SA. Roedd yr amodau a welwyd yn digwydd amlaf yn ymwneud â thema risg allweddol derbyn a dilyniant. Amodau ynghylch themâu risg allweddol dysgu arfer ac addasrwydd i wneud gwaith oedd y rhai nesaf a welwyd yn digwydd amlaf, a ddilynydd gan SA ac adnoddau.

Roedd yr amodau a bennwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys y themâu canlynol:

- Adolygu a/neu gywiro dogfennaeth.
- Egluro canlyniadau dysgu.
- Adnodd partner arfer neu academiaidd digonol.
- Gwybodaeth briodol ynghylch derbyniadau.
- Gwybodaeth glir ynghylch y ffordd y caiff y rhaglen ei rhedeg, gan gynnwys asesu.
- Prosesau sicrhau ansawdd priodol, gan gynnwys defnyddio arholwyr allanol.
- Sicrhau dogfennaeth gyson am y rhaglen.

Yn Atodiad pedwar, rydym wedi rhoi crynodeb o'r holl amodau a neilltuwyd i SACau yn dilyn digwyddiadau cymeradwyo yn ystod blwyddyn academiaidd 2017/2018. Mae rhan fwyaf yr amodau a bennir gennym yn ymwneud â rhaglenni ôl-gofrestru.

Estyniadau

Ym mis Gorffennaf 2018, estynnem y broses o gymeradwyo rhaglen ar gyfer rhan fwyaf y rhaglenni nyrsio a phresgripsiynu cyn cofrestru ac ôl-gofrestru a oedd yn bodoli eisoes. Diben hyn oedd cynnig amser i SACau baratoi a cheisio cymeradwyaeth dan y safonau newydd. Ceisiom gadarnhad gan bob SAC ynghylch unrhyw bryderon newydd neu bresennol neu bryderon a oedd yn dod i'r amlwg cyn ystyried estyniad. Pan nodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â sefydliad, nis rhoddwyd yr estyniad perthnasol i'r rhaglen nes i'r rhain gael eu datrys.

Roedd y rhaglenni cymeradwy presennol a gynhwyswyd yn ein penderfyniad i ymestyn yr amserlen gymeradwyo wreiddiol fel a ganlyn:

- Nyrsio cyn-gofrestru (ar gyfer pob maes nyrsio).
- Bydwreigiaeth cyn-gofrestru.
- Presgripsiynu gan ymarferydd nyrsio cymunedol (V100)¹.
- Presgripsiynu gan ymarferydd nyrsio cymunedol (V150)².
- Presgripsiynu gan nyrs atodol ac annibynnol (V300)³.
- Cymwysterau ymarferydd arbenigol (nyrsio oedolion, plant, nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal gyda phresgripsiynu nyrs V100 integredig, nyrsio ymarfer meddygol, anabledau dysgu, iechyd meddwl, nyrsio iechyd galwedigaethol a nyrsio mewn ysgolion).
- Nyrsio iechyd ymarferydd cymunedol arbenigol (nyrsio iechyd teuluol, generig, ymweliadau iechyd, ymweliadau iechyd gyda phresgripsiynu nyrs V100 integredig, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio mewn ysgolion ac ymweliadau iechyd).
- Dychwelyd i arfer – nyrsio a bydwreigiaeth.

Llwybrau hyblyg er mwyn cofrestru

Yn dilyn 2016–17, rydym wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y SACau sy'n ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwahanol llwybrau addysg nyrsio cyn-gofrestru wrth i ddarparwyr ymateb i newidiadau i drefniadau cyllido a chomisiynu, dulliau gweithredu lleol er mwyn bodloni anghenion y gweithlu, ac ehangu mynediad i'r rhai sy'n dymuno bod yn nyrsys ac yn fydwragedd. Ar gyfer nyrsio cyn-gofrestru, mae hyn yn cynnwys:

Modelau dysgu seiliedig ar waith. Mae SACau yn gweithio gydag un sefydliad cyflogwr neu fwy, gan nodi unigolion i ddilyn rhaglen astudio. Yn ogystal, bydd y myfyrwyr yn treulio cyfran o'u hamser yn gweithio ar gyfer y sefydliad sy'n cyflogi. Mae'r oriau hyn y byddant yn gweithio y tu allan i'w horiau theori a dysgu arfer gofynnol.

Prentisiaeth gradd nyrsio (Lloegr yn unig). Dim ond ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn-gofrestru y mae'r llwybr hwn ar gael o hyd. Mae'r llwybr hwn yn galluogi pobl i hyfforddi i fod yn nyrs gofrestredig trwy gyfrwng llwybr prentis. Mae safonau prentisiaeth ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

1 Bydd V100 yn paratoli'r rhai y maent eisoes wedi cofrestru ac y mae ganddynt gymhwyster ymarferydd cymunedol arbenigol, i bresgripsiynu mewn ffordd ddiogel a phriodol o'r llyfr fformiwlâu ymarferydd cymunedol.

2 Mae V150 ar gyfer yr ymarferwyr hynny nad ydynt yn meddu ar gymhwyster nyrs iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol neu ymarferydd arbenigol cymunedol, ond y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys asesu, gofalu am a rheoli cleientiaid yn y lleoliad cymunedol. Bydd yr ymarferwyr hyn yn ddeiliaid llwyth achosion a bydd angen clinigol i bresgripsiynu o'r llyfr fformiwlâu ymarferydd cymunedol wedi cael ei nodi.

3 Mae hon yn bartneriaeth wirfoddol rhwng presgripsiynydd annibynnol y mae'n rhaid iddynt fod yn feddyg neu'n ddeintydd a phresgripsiynydd atodol, i weithredu cynllun rheolaeth glinigol benodol claf y cytunwyd arno gyda chytundeb y claf.

Manteisio i'r eithaf ar achrediad dysgu blaenorol. Defnyddir hwn yn gyffredinol gan gynorthwyr gofal iechyd y mae ganddynt CGC lefel 3 neu ymarferwyr cyswllt y mae ganddynt radd sylfaen. Caiff eu dysgu blaenorol ei fapio yn erbyn ein safonau hyd at uchafswm o 50 y cant o'r rhaglen gyffredinol. Nid ydynt yn parhau i weithio fel cynorthwyr gofal iechyd, gan astudio dan drefniant amser llawn fel arfer dros y 18 mis cyfan.

Model heb ei gomisiynu. SACau yn datblygu rhaglenni nyrsio cyn-gofrestru ar gyfer myfyrwyr heb eu comisiynu ac sy'n cael eu hariannu dan drefniant preifat.

Prentisiaethau gradd nyrsio

Yn ystod 2017–2018, rhoddom gymeradwyaeth i 21 SAC pellach i ddarparu nyrsio cyn-gofrestru trwy gyfrwng llwybr prentisiaethau gradd nyrsio (NDA). Ar hyn o bryd, mae gennym gyfanswm o 23 SAC sydd wedi cael eu cymeradwyo i ddarparu NDAs.

Yn ogystal, mae gennym SACau eraill y maent ar fin cynnal digwyddiadau cymeradwyo er mwyn cynnig llwybr NDA yn ystod 2018/19.

Rhyddhaodd yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau ddata eleni a oedd yn cadarnhau bod 20 myfyriwr wedi cofrestru ar gyfer NDAs nyrsio cyn-gofrestru rhwng 1 Awst 2017 a 31 Ionawr 2018.

Yn ogystal, adroddodd un o'n SACau nad oedd eu llwybrau NDA (iechyd meddwl a phlant) yn rhedeg o ganlyniad i niferoedd annigonol y myfyrwyr.

Monitro rhaglenni cymeradwy

Rydym yn monitro rhaglenni mewn nifer o ffyrdd a phan nodir materion, mae gofyn i ni gael sicrwydd bod y rhain yn cael eu rheoli gan sefydliadau a'u partneriaid mewn ffordd brydlon ac effeithiol. Os mynegir pryderon difrifol, gallwn dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl.

Hunanasesu gan SAC

Mae gofyn i SACau gynnal a chyflwyno hunanasesiad blynyddol a hunan-ddatganiad o'u rhaglen(ni) presennol wedi'u cymeradwyo gan CNB. Mae'r hunanasesiad yn cynnig cyfle i SACau a'u partneriaid gynnig enghreifftiau neu astudiaethau achos o arfer nodedig neu arloesol, ac yn eu galluogi i ddynodi unrhyw feysydd darpariaeth y maent yn bwriadu eu hystemyn. Mae'r hunan-ddatganiad yn mynnu bod y SAC yn cadarnhau y bydd yr holl raglenni cymeradwy yn parhau i fodloni safonau CNB; yr hysbyswyd CNB o'r holl addasiadau i'r rhaglen; a, bod yr holl brif risgiau yn cael eu rheoli.

Adolygir adroddiadau hunanasesu blynyddol SACau ac efallai y byddwn yn gofyn i SACau ailgyflwyno'u hadroddiad a chynnig gwybodaeth werthuso fanwl bellach os nad yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn gallu ein sicrhau ni y bodlonwyd yr holl feini prawf.

Yn 2017/18, nid oedd 13 SAC (16 y cant) wedi cynnig sicrwydd yn eu hadroddiad hunanasesu bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canlyniad a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Pan nas rhoddir sicrwydd, mae gofyn i sefydliadau ddatblygu cynlluniau gweithredu, yna byddwn yn monitro'r rhain.

Risgiau allweddol – dadansoddi hunanasesu

Roedd pob SAC wedi cwblhau'r hunanasesiad gofynnol yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Fel y digwyddodd yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, dysgu arfer oedd y prif faes risg lle y gwelwyd nifer uchaf y cwynion.

Y rheswm a nodwyd fwyaf dros beidio cynnig sicrwydd bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli oedd y methiant i adrodd manylion camau gweithredu a gymrwyd i roi sylw i argymhellion o'r digwyddiadau addasu/cymeradwyo rhaglenni a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2016 a 31 Awst 2017. Roedd hyn yn wir ar gyfer naw o blith 13 SAC. Roedd y materion go iawn neu bosibl a nodwyd gan SACau ar draws y DU fel rhai sy'n peri risg i i ddysgu arfer ac academaidd fel a ganlyn:

- ansawdd yr amgylchedd dysgu
- ailstrwythuro gwasanaethau mamolaeth
- niferoedd digonol o leoliadau arfer er mwyn delio â niferoedd y myfyrwyr
- diffyg athrawon arfer ar gyfer rhaglenni SCPHN (nyrsys ysgol)
- nifer y myfyrwyr sy'n destun ymchwiliad oherwydd materion addasrwydd i wneud gwaith, a
- phrinder dros dro brechiadau Hepatitis B ar draws y byd, a gynigir i fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth cyn-gofrestru.

Pan na wnaeth SACau gynnig sicrwydd, roedd gofyn iddynt weithredu ac adrodd am gynnydd ar gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt. Buom yn olrhain y cynlluniau gweithredu hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

Ymweliadau adolygiadau monitro SAC

Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o SACau i gael ymweliadau monitro. Roedd hyn wedi galluogi timau adolygu SA i gyfarfod myfyrwyr, addysgwyr a defnyddwyr gwasanaeth a gofalfyr wyneb yn wyneb. Gwnaethom hyn trwy ganolbwyntio ar bum maes risg allweddol er mwyn pennu a oedd trefniadau rheoli digonol mewn grym: adnoddau, derbyniadau a dilyniant, dysgu arfer, addasrwydd i wneud gwaith, a SA.

Dewiswyd 14 SAC ar gyfer ymweliadau adolygiadau monitro eleni (17 y cant o'r cyfanswm). Gan bod rhaglenni nyrsio yn cael eu cymeradwyo yn erbyn y safonau rhaglen newydd o fis Hydref 2018, cytunwyd canolbwyntio ar raglenni bydwreigiaeth ac SCPHN/SPQ at ddibenion monitro, law yn llaw â phroses ddethol wedi'i seilio ar risg.

Adolygwyd cyfanswm o 23 rhaglen ar draws yr 14 SAC a ddewiswyd. Roedd y rhain yn cynnwys 12 rhaglen bydwreigiaeth cyn-gofrestru, tair rhaglen dychwelyd i arfer (bydwreigiaeth), pum rhaglen ymweliadau iechyd nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol (SCPHN), ac un rhaglen nyrsio ysgol SCPHN.⁴ Roeddem wedi cynnwys un rhaglen nyrsio cyn-gofrestru (oedolion) ac un rhaglen dychwelyd i arfer (nyrsio) hefyd.

Prif risgiau – dadansoddi'r canlyniadau monitro

Eleni, roedd llai o SACau wedi llwyddo i sicrhau canlyniad "bodlonwyd y safon" ym mhob thema risg, gan awgrymu bod ein dull gweithredu wedi'i dargedu wedi nodi rhaglenni priodol i'w monitro. Dim ond un o blith yr 14 SAC a lwyddodd i sicrhau canlyniad 'bodlonwyd y safon' ym mhob thema risg, o'i chymharu â chwech o blith 17 SAC yn 2016-2017.

Bodlonwyd y canlyniad yn:	Nifer y SACau:
1 o 5 thema risg	3 (21.4%)
2 o 5 thema risg	4 (28.6%)
3 o 5 thema risg	5 (35.7%)
4 o 5 thema risg	1 (7.1%)
5 o 5 thema risg	1 (7.1%)

⁴ www.nmc.org.uk/education/quality-assurance-of-education/monitoring-results/

Roedd 10 o blith yr 14 SAC wedi cael o leiaf un canlyniad 'nis bodlonwyd y safon' yn y themâu risg, sy'n swm is o'i gymharu â'r pump o blith yr 17 SAC yn 2016–2017.

Roedd gofyn i 10 SAC wneud gwelliannau i drefniadau rheoli risg a gwella'r sicrwydd ar gyfer diogelu'r cyhoedd ar draws o leiaf un o'r themâu risg, sy'n cyd-fynd â'r canfyddiadau yn 2016–17 a 2015–16.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, roedd mwyafrif y risgiau nad oeddent yn cael eu rheoli ac a nodwyd trwy gyfrwng gwaith monitro, o fewn dau faes risg allweddol: dysgu arfer ac addasrwydd i wneud gwaith. Fel y gwelwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, dysgu arfer yw'r maes sy'n peri'r pryder mwyaf arwyddocaol o hyd wrth i ni sicrhau ansawdd addysg yn ystod 2017–2018.

Mae'r prif faterion a nodwyd yn cynnwys:

- gwaith annigonol i gofnodi a neilltuo mentoriaid a mentoriaid cymeradwyo
- Mae gofyn gwella prosesau SACau er mwyn adnabod risgiau a phryderon a'u hadrodd i ni mewn ffordd eithriadol
- y ffaith nas adroddir yn rheolaidd am allbynnau mewn perthynas â chyswllt defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr gyda gweithgarwch datblygu rhaglen, darparu rhaglen, asesu a gwerthuso
- roedd y pryderon a oedd yn ymwneud ag addasrwydd i wneud gwaith wedi codi'n llai aml, fodd bynnag, roedd gan y rhain y potensial i gael effaith sylweddol ar ddiogelwch y cyhoedd, gan gynnwys myfyrwyr heb fod yn cwblhau nifer ofynnol yr oriau theori ac arfer.

Roedd gofyn i SACau nad oeddent yn cydymffurfio lunio a chwblhau cynllun gweithredu, a gymeradwywyd gan yr adolygydd ac a anfonwyd atom i'w adolygu. Byddwn yn ymateb i'r gwelliannau a nodwyd trwy'r cylch hunanasesu blynyddol nesaf. Mae atodiad pump yn nodi manylion y themâu a ddaeth i'r amlwg.

Dysgu arfer

Roedd tri (21 y cant) o'r 14 SAC a gafodd eu monitro yn ystod y flwyddyn adrodd hon wedi darparu tystiolaeth o'r ffaith y bodlonwyd y thema risg hon, ac mae hyn yn is na'r saith SAC (42 y cant) a fonitrwyd yn 2016–17.

Roedd saith SAC (50 y cant) wedi methu bodloni'r thema risg allweddol hon o'u cymharu â phedwar SAC (23.5 y cant) yn 2016–17.

Roedd pedwar SAC wedi cael dyfarniad 'mae gofyn sicrhau gwelliant' ar gyfer y maes risg hwn. Roedd y meysydd yr oedd gofyn eu gwella yn cynnwys: cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn rhaglen bydwreigiaeth dychwelyd i arfer; cyswllt ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth gyda gwaith monitro parhaus a datblygu rhaglenni Ymwelwyr Iechyd SCPHN a bydwreigiaeth cyn-gofrestru.

Roedd gofyn i bob SAC nad oeddent wedi sicrhau cydymffurfiaeth weithredu yn amserol er mwyn cynnig sicrwydd o'r cymorth ar gyfer dysgu ac asesu mewn gwirionedd ar ffurf cynllun gweithredu o fewn amserlen a gytunwyd. Yna, monitrwyd y cynlluniau gweithredu hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'n safonau.

Addasrwydd i wneud gwaith

Mae derbyniadau a dilyniant yn parhau i fod yn faes lle y gwelwyd materion trwy gyfrwng y gwaith monitro.

Roedd wyth SAC (57 y cant) o blith yr 14 SAC a fonitrwyd eleni wedi cynnig sicrwydd bod y thema risg hon yn cael ei bodloni. Mae hwn yn ostyngiad o'r 15 SAC (73 y cant) yn ystod cyfnod monitro 2016–17.

Roedd pedwar SAC wedi methu bodloni'r thema risg hon. Roedd y meysydd yr oedd SACau wedi methu eu bodloni yn cynnwys:

- nid oedd myfyrwyr a oedd wedi cofrestru ar y rhaglen bydwreigiaeth cyn-gofrestru byrrach yn cwblhau nifer ofynnol yr oriau theori ac arfer
- nid oedd hyd y cyfnod cadarnhau yn rhaglen nyrsys ysgol SCPHN yn cydymffurfio â safonau CNB
- methiant i raddio asesiad arfer bydwreigiaeth mewn mamolaeth a lleoliadau eraill.

Roedd dau SAC (14 y cant) wedi cael canlyniadau 'mae gofyn sicrhau gwelliant'. Roedd y meysydd yr oedd gofyn eu gwella yn cynnwys:

- prosesau SAC er mwyn archwilio bod myfyrwyr nyrsio dychwelyd i arfer yn cwblhau'r holl elfennau hyfforddiant gorfodol cyn symud ymlaen i leoliad a'r rhai sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus
- y broses o fonitro oriau arfer er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr yn gweithio oriau gormodol, a allai beryglu diogelwch cleifion a myfyrwyr.

Pan nad oedd ein safonau yn cael eu bodloni, roedd gofyn i sefydliadau gymryd camau amserol a phriodol, gan ddatblygu cynllun gweithredu ac adrodd amdano. Yna, monitrwyd y cynlluniau gweithredu hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'n safonau.

Meysydd risg allweddol eraill

Roedd tri SAC (21 y cant) wedi methu bodloni thema risg adnoddau. Roedd y prif risgiau'n ymwneud â staff academaidd SCPHN yn darparu'r rhaglen; nid oedd arweinwyr llwybr SCPHN (nyrsys ysgol) ac SCPHN (ymwelwyr iechyd) yn meddu ar gymhwyster athro cofnodedig CNB, sy'n ofyniad gan CNB. Yn ogystal, nid oedd gan un darparwr lleoliad arfer niferoedd digonol o fentoriaid cymeradwyo er mwyn bodloni anghenion myfyrwyr bydwreigiaeth cyn-gofrestru.

Arfer nodedig

Rydym yn adrodd am arfer nodedig hefyd, a gaiff ei ddiffinio fel arfer addysg sy'n arloesol ac y mae'n werth ei ledaenu. Adroddodd adolygwyr SA am enghreifftiau o arfer o'r fath a nodwyd trwy gyfrwng gweithgarwch SA, a nododd SACau feysydd y mae'n werth eu hystyried yn eu barn nhw trwy gyfrwng y broses hunan-adrodd flynyddol.

Nododd adolygwyr SA nifer o ddatblygiadau nodedig wrth fonitro rhaglenni bydwreigiaeth cyn-gofrestru a rhaglenni bydwreigiaeth dychwelyd i arfer. Roedd y rhain yn cynnwys proses archwilio addysgol ar draws ymddiriedolaeth, a gynhelir dros gyfnod o wythnos gan dîm archwilio sy'n cynnwys staff academaidd, hwyluswyr arfer clinigol ac ymarferwyr sydd wedi cael eu hyfforddi i gynnal archwiliadau; a chyflwyno cofnod profiad asesu arfer newydd (PARE), a gaiff ei gynorthwyo gan gydweithio penigamp a gweithgarwch rheoli newid effeithiol.

Rhan dau: Ymateb i bryderon

Adrodd eithriadol

Pan fydd risgiau yn dod i'r amlwg, rhaid i SACau a'u partneriaid dysgu arfer ymateb yn gyflym er mwyn rheoli risgiau mewn ffordd briodol. Dylai SACau anfon adroddiadau eithriadol atom mewn neges e-bost a byddwn yn gweithredu pan na chaiff y risgiau hyn eu rheoli mewn ffordd effeithiol ac yn lleol. Byddwn yn rhoi sylw dilynol i gynlluniau gweithredu a weithredir hefyd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda SACau er mwyn pwysleisio pwysigrwydd adrodd eithriadol i ni mewn ffordd amserol. Am y drydedd flwyddyn o'r bron, rydym wedi cofnodi cynnydd blynyddol yn nifer yr adroddiadau eithriadol a gafwyd (133 at ei gilydd yn ystod y cyfnod hwn, o'u cymharu ag 89 yn ystod 2016/2017). Mae rhan fwyaf yr adroddiadau eithriadol yn parhau i ymwneud â materion mewn amgylcheddau arfer, gan gynnwys adroddiadau rheolydd system niweidiol a'u heffaith ar ddysgu, goruchwyliaeth ac asesu myfyrwyr ac uwch-gyfeirio pryderon myfyrwyr, a pha gamau a gyrrwyd yn lleol i reoli'r pryderon hynny. Pan fydd SACau yn adrodd am fater neu bryder i ni, mae gofyn i ni gael tystiolaeth o'r camau a gyrrwyd, pan fo hynny'n briodol, er mwyn rheoli neu leihau unrhyw risgiau a nodwyd i'n safonau gymaint ag y bo modd. Byddwn yn cysylltu â'r SAC i sicrhau eu bod yn rheoli unrhyw risg mewn ffordd foddhaol.

Fel rhan o'n rôl fel rheolydd dynamig, rydym yn parhau i rannu gwybodaeth yn fewnol gyda'n Huned Gwybodaeth Reoliadol a'n cydweithwyr Addasrwydd i wneud Gwaith mewn ffordd ragweithiol, yn ogystal ag yn allanol pan fo hynny'n briodol gyda rheolyddion system a phroffesiynol eraill.

Ar 26 Gorffennaf 2018, llofnodom y "protocol pryderon sy'n dod i'r amlwg" gyda saith sefydliad a rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol, a fydd yn ein helpu i rannu gwybodaeth am bryderon sy'n dod i'r amlwg gyda'n gilydd a gyda phartneriaid system mewn ffordd amserol er mwyn cynorthwyo'r broses o ddarparu gofal o ansawdd uchel.

Ymweliadau adolygu eithriadol

Pan fyddwn yn nodi digwyddiadau niweidiol difrifol a phryderon ynghylch SAC neu leoliad arfer, ac mae mesurau risg lleol yn gyfyngedig, efallai y byddwn yn penderfynu cynnal adolygiad eithriadol nas trefnwyd. Efallai y bydd y mesur hwn yn angenrheidiol os oes pryderon sy'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd, ac os bernir bod y SAC yn anymwybodol o hyn neu'n methu gweithredu mesurau digonol i reoli'r risg.

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau eithriadol newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2017–2018.

Atodiad un:

Crynodeb o ddata SAC tan 31 Awst 2018

Cyfanswm y SACau wedi'u cymeradwyo gan CNB	83
Cyfanswm y rhaglenni wedi'u cymeradwyo gan CNB	917
Nifer y SACau wedi'u cymeradwyo i gynnal rhaglenni nyrsio cyn-gofrestru	79
Nifer y SACau wedi'u cymeradwyo i gynnal rhaglenni bydwreigiaeth cyn-gofrestru	53
Nifer y sefydliadau addysg newydd a gymeradwywyd i fod yn SAC yn ystod y flwyddyn adrodd	3
Nifer y rhaglenni a gymeradwywyd neu a ail-gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn adrodd	55
Nifer y SACau a gymeradwywyd i ddarparu rhaglenni nyrsio cyn-gofrestru am y tro cyntaf	2
Nifer y SACau a gymeradwywyd i ddarparu rhaglenni bydwreigiaeth cyn-gofrestru am y tro cyntaf	1
Nifer y SACau a gymeradwywyd i ddarparu prentisiaethau gradd nyrsio	23

Atodiad dau: SACau cymeradwy a chanlyniadau monitro

LLOEGR			YR ALBAN
Prifysgol Ruskin Anglia	Prifysgol Edge Hill	Prifysgol Nottingham	Prifysgol Abertay Dundee
Prifysgol Swydd Bedford	Prifysgol Essex	Y Brifysgol Agored	Prifysgol Dundee
Prifysgol Dinas Birmingham	Prifysgol Caerwysg	Prifysgol Oxford Brookes	Prifysgol Napier Caeredin
Prifysgol Birmingham	Prifysgol Swydd Gaerloyw	Prifysgol Plymouth	Prifysgol Caledonian Glasgow
Prifysgol Bolton	Prifysgol Greenwich	Prifysgol Portsmouth	Prifysgol Caeredin
Prifysgol Bournemouth	Prifysgol Swydd Hertford	Prifysgol Reading	Prifysgol Glasgow
BPP	Prifysgol Huddersfield	Prifysgol Salford	Prifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd
Prifysgol Bradford	Prifysgol Hull	Prifysgol Hallam Sheffield	Prifysgol Brenhines Margaret
Prifysgol Brighton	Prifysgol Keele	Prifysgol Sheffield	Prifysgol Robert Gordon
Prifysgol Brunel Llundain	Coleg King's Llundain	Prifysgol Solent Southampton	Prifysgol Stirling
Prifysgol Newydd Swydd Buckingham	Prifysgol Kingston Phrifysgol St George Llundain	Prifysgol Southampton	Prifysgol Gorllewin yr Alban
Prifysgol Christ Church Caergaint	Prifysgol Beckett Leeds	Prifysgol Swydd Stafford	CYMRU
Prifysgol Canol Sir Gaerhirfryn	Prifysgol Leeds	Suffolk, Prifysgol (Campws Prifysgol Suffolk yn flaenorol)	Prifysgol Bangor, Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd
Prifysgol Caer	Prifysgol Caerlŷr	Prifysgol Sunderland	Prifysgol Caerdydd
Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Dinas Llundain	Prifysgol Lincoln	Prifysgol Surrey	Prifysgol Glyndŵr
Prifysgol Cofentri	Prifysgol Lerpwl	Prifysgol Teesside	Prifysgol De Cymru
Prifysgol Cymbria	Prifysgol John Moores Lerpwl	Prifysgol Goglewin Llundain	Prifysgol Abertawe
Prifysgol De Montfort	Prifysgol Lerpwl	Prifysgol Gorllewin Lloegr ym Mryste	
Prifysgol Derby	Prifysgol South Bank Llundain	Prifysgol Wolverhampton	
Prifysgol East Anglia	Prifysgol Fetropolitan Manceinion	Prifysgol Caerwrangon	ALLWEDD
Prifysgol Dwyrain Llundain	Prifysgol Manceinion	Prifysgol Efrog	<input type="checkbox"/> Mae'r SACau a amlygir yn wyrdd yn rhai a gymeradwywyd o'r newydd yn 2017–2018.
	Prifysgol Middlesex	GOGLEDD IWERDDON	<input type="checkbox"/> Mae'r SACau a amlygir mewn glas golau wedi cael eu monitro yn ystod 2017–2018 ac mae'r adroddiadau monitro ar gael ar ein gwefan.
	Prifysgol Northampton	Prifysgol Queens Belfast	
	Prifysgol Northymbria	Prifysgol Ulster yn Jordanstown	

Atodiad tri: canlyniadau cymeradwyo rhaglenni

Canlyniad	Nifer
Rhaglenni newydd a gymeradwywyd	12
Roedd gofyn bodloni amodau cyn eu cymeradwyo gydag argymhellion ychwanegol	12
Rhaglenni a ail-gymeradwywyd	43
Roedd gofyn bodloni amodau cyn eu cymeradwyo gydag argymhellion ychwanegol	37
Roedd gofyn bodloni amodau cyn eu cymeradwyo	2
Cymeradwywyd gydag argymhellion	2
Cymeradwywyd heb argymhellion neu amodau	2
Gwrthodwyd cais i gymeradwyo rhaglen	4
Cyfanswm	59

Atodiad pedwar:

Amodau cymeradwyo

Gwybodaeth am y cwrs	NIFER YR AMODAU			
	Nyrs Gofrestredig (RN)	Bydwraig Gofrestredig (RM)	Presgripsiynu gan Nyrs a Bydwraig	Safonau Ôl-gofrestru
Diwygio a/neu ddiweddarau manyleb y rhaglen			4	8
Egluro meini prawf mynediad a'r broses dderbyn			2	8
Egluro canlyniadau dysgu			7	14
Egluro modiwlau				5
Egluro cynnwys y cwrs	2	3	4	11
Egluro oriau arfer a theori		4	1	6
Creu amserlen gyfathrebu				1
Gwahaniaethu rhwng dau ddyfarniad				2
Nodi manylion trefniadau pontio		1		
Egluro darpariaeth y cwrs			1	1
Adolygu'r dyfarniad wrth ymadael				3
Diwygio meini prawf Achredu Dysgu Blaenorol	1			1

(APL)	1			1
Sicrhau ansawdd	1	2	3	17
Adolygu a/neu gywiro dogfennaeth	1	2	3	17
Tystiolaeth o hyfforddiant E&D		1		3
Arfer			1	3
Gofynion presgripsiynu myfyrwyr			1	3
Tystiolaeth o gymhwyster athro cofnodadwy	2			
Egluro'r broses fonitro		1		
Tystiolaeth o gymorth ar gyfer mentoriaid		2		
Strategaeth asesu	1		1	2
Egluro asesu	1		1	2
Diwygio archwiliad OSCE			1	
Darparu mecanweithiau trylwyr er mwyn sicrhau y bodlonir safonau a'u bod yn cael eu cwblhau cyn i fyfyrwr adael y rhaglen				1
Gweithdrefnau er mwyn rhan-ddiryму o ofynion Prifysgol	1		1	1
Nodi mewn ffordd glir sut y dyfarnir disgrifwyr gradd		1		
Egluro statws ychwanegol myfyrwyr			1	
Adolygu strategaeth dysgu ac addysgu				2
Adnoddau addas		1		
Tystiolaeth o adnodd addas		1		
Tystiolaeth o staff digonol				2
Staff digonol sy'n meddu ar arbenigedd maes penodol	2			
Cytuno ar gylch gorchwyl ac aelodaeth bwrdd goruchwyllo ar y cyd		1		
Tystiolaeth o ymrwymiad i ddarparu modiwlau arwain o fewn y cwricwlwm		1		
Tystiolaeth o fentoriaid priodol	1	1		
Cyfanswm:	11	19	27	91

Atodiad pump: canlyniadau monitro

Gradd a ddyfarnwyd	Nifer y darparwyr rhaglen a lwyddodd i sicrhau pob lefel reoli yn 2017–2018				
	Adnoddau	Derbyniadau a dilyniant	Dysgu arfer	Addasrwydd i wneud gwaith	Sicrhau ansawdd
Bodlonwyd	10 (71.4%)	8 (57.1%)	3 (21.4%)	8 (57.1%)	7 (50%)
Mae gofyn sicrhau gwelliant	1 (7.1%)	5 (35.7%)	4 (28.6%)	2 (14.3%)	5 (35.7%)
Nis bodlonwyd	3 (21.4%)	1 (7.1%)	7 (50%)	4 (29.6%)	2 (14.3%)

NMC Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T +44 20 7637 7181

www.nmc.org.uk

The nursing and midwifery regulator for England,
Wales, Scotland and Northern Ireland

Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)